

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Fedi 2020

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Cyfethol i ward Glasinfryn
4. Derbyn cofnodion 13eg o Awst 2020
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - a. Is Bwyllgor Cyllid
 - b. Prosiectau
 - i. Cae Chwarae Cerhun
 - ii. Lon Glasinfryn
 - iii. Blodau gwyllt
 - iv. Cysgodfan Nant y Mownt
7. Archwilwyr allannol
8. Materion y Clerc
 - a. Cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni
9. Materion y Cynghorwyr
 - a. Cyng M Baines Cais newydd Deintyddfa yn Parc Menai
 - b. Cyng M Lynch Gwerthiant Tafarn y Vaynol Arms Pentir ag ymgais trigolion lleol i edrych ar y posibilrwydd ei phrynu
 - c. Cyng J Griffiths Sbwriel Ion Penhower
 - d. Cyng E Jones Hawl trigolion ar Dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Glan Menai

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Awst 2020

1. Presennol: Cyng L A James Cyng J Pierce Cyng D W Jones Cyng B Jones Cyng E Jones Cyng M Baines
2. Ymddiheuriadau: Cyng J Griffiths Cyng H Griffiths Cyng T A Williams Cyng M Lynch Cyng D Jones Morris
3. Ethol Cadeirydd Etholwyd Cyng L A James i gadeirio y cyfarfod
4. Broses cyfethol i Ward Glasinfryn
Esbonwyd fod y cyfnod hysbysebu sedd wag wedi dod i ben ers 3ydd o Ebrill ag oherwydd cyfnod y clo mi oedd 14 diwrnod cyfnod cyfethol hefyd wedi ei draelio a neb wedi rhoi enw ymlaen. Cafwyd awgrymiadau am unigolion fyddai, o bosib, a diddordeb a gofynwyd i'r aelodau geisio cael gair hefo yr unigolion hynny
5. Cod ymddygiad - Atgoffwyd pawb o'r Côt a chan nad oedd posib cwblhau ffurflen datgan buddaint gofynwyd i unrhyw un oedd a buddiant ddatgan hynny ar lafar fel y gallai'r Clerc gofnodi hynny
6. Derbyn cofnodion 14eg o Orffennaf 2020
Ar gynnig Cyng J Pierce a'r Cyng E Jones yn eilio derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir
7. Materion yn codi o'r cofnodion
Mynegwyd pryder nad oedd y Ffens yng ngwaelod Coed y Maes byth wedi eu gosod a bod problemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn cynnyddu yna. **Adroddodd y Cyng M Baines ei bod wedi bod mewn cyswllt a Swyddogion Gwynedd a bydd ymateb buan**
Torri Coed ar safle Cyfoeth Nat Cymru yn dal yn achosi pryder i drigolion lleol er bod tocio wedi digwydd mae rhai canghenau mawr allai achosi difrod yn dal yna.
Cyng B Jones/Cyng M Baines am holi L Connelly yn yr Adran Gynllunio yn Pwllheli
Bu i ddwy o'n Cynghorwyr Cyng E Jones a Cyng M Baines gyfarfod a 2 o drigolion Ffordd Cynan a swyddogion Tramwy Gwynedd ynglyn a cwyn am y Llwybr cefn eu tai. Wedi cael cyfarfod buddiol a chael ar ddeallt fod yr ardal i gael ei darmacio i gyd unwaith daw y grant drwodd. Trafodwyd y gellir gosod gwrychoedd yno ond cyfrifoldeb y trigolion fyddai eu rheoli wedyn.
Diolchwyd iddynt am ein cynrychioli
Bocsus Blodau
Nid oedd y contractwr, gytynodd ar y cychwyn i ymgymeryd a'r gwaith, wedi cysylltu yn ol er i ni gael llyfrau archebu swyddogol oedd canolfannau gerddio yn hapus i dderbyn.
Clerc i wneud ymholiadau hefo eraill
8. Materion ariannol
Er nad oedd cyfarfod o'r Is-bwyllgor cyllid wedi ei gynnal ers Chwefror 'roedd y cyfrifon wedi eu rhannu yn ystod y Cyfarfod Blyneddol (Gorffennaf) ag mi oedd y Clerc wedi darparu mantolen gyfredol ar gyfer y cyfarfod.
Derbynwyd y fantolen
9. Derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Mewnnol
'Roedd y Clerc wedi derbyn yr adroddiad yn electronig ag wedi ei gyrru ymlaen i'r aelodau ar yr 28ain o Orffennaf. Cafodd ei derbyn yn ffurfiol heno a diolchwyd i'r Clerc am ei waith.
10. Materion y Clerc
 - a. ROSPA
'Roedd adroddiad archwyliad blyneddol o Cae Chwarae Caerhun wedi dod i law. Nid

oedd unrhyw risg uchel wedi dod i'r amlwg ond 'roedd cyfeiriad at y gwagle rhwng y teils diogelwch ar y lloria ag at ol gwisgo ar ambell i gadwyn. Derbynnwyd yr adroddiad a gofyn i'r Clerc holi am brisiau cyfredol i adnewyddu y teils a'r cadwynni

b. Llyfr Archebu

Clerc wedi archebu a derbyn 2 lyfr archebu swyddogol ond heb dderbyn infois eto

c. Ad-daliad Ink a papur Cartridge People - £74.98 yn cynnwys £12.50 TAW

Gan fod ein cyflenwyr lleol wedi cau rhaid oedd i'r Clerc archebu Ink a Papurau gan Gwmni Cartridge People ar y Wé a thalu gyda'i gerdyn personol. Gan nad oedd yn sicr o sut allai'r Cyngor ad-ennill TAW a'r Infois yn ei enw fo.

Argymhellwyd iddo holi ein cyfrifwyr

11. Materion y Cyngorwyr

a. Cyng H Griffiths Gordyfiant ar y llwybr ceffyla o Penhower Uchaf i Lon Cyttir –

Gordyfiant hefyd ar y Lon Gefn o Fferm Glasinfryn i gyfeiriad Minffordd a sbwriel ar lon Penhower ers Mis – Canghennau Coed Isel ar y ffordd o Pencefn i gyfeiriad Waen Wen **Clerc i gysylltu a'r adrannau priodol yn Gwynedd**

b. Cyng J Griffiths Cod Post ardal Waen Wen dal yn achosi problemau a'r tyllau ar ffordd drwy hen bentref Glasinfryn wedi cael sylw erbyn hyn.

Clerc i gysylltu hefo Gwynedd am y tyllau. Y Côt Pôst yn achosi mwy o broblemau i ddosbarthwyr parseli yn fwy nag i'r Pôst Brenhinol

c. Cyng M Lynch wedi derbyn cwyn ynglyn a dwr ar lwybr cyhoeddus Lon Llanerch.

'Roedd y Clerc yntau wedi derbyn yr un gŵyn ag **am gysylltu hefo'r tîrfeddianwr**

d. Cyng M Baines Goetre Uchaf

Er gwybodaeth yn unig, ar hyn o bryd, rhannodd y Cyng bryderon trigolion Stâd Redrow am drafferthion ar gyflwr a diffygion y stâd ynghyd a'u bod yn talu £250 i gynnal a chadw'r Stad i Gwmni 'Trinity' (rhan o Redrow) ag nad oedd rheini yn gwneud yr hyn ddyliai nhw fod yn wneud.

'Roedd pryder ynglyn a chyflwr y ffyrdd ag na fyddai rheini yn cael eu mabwysiadu.

e. Canolfan Penrhos

Adroddwyd fod y Gwasanaeth Ambiwlans ar hyn o bryd yn gwneud defnydd ohoni fel 'mangre ymlacio' Yn sgil hynny rhaid cwblhau asesiad risg a sicrhau fod yr holl brofion angenrheidiol yn eu lle. Hynny wedi eu gwneud ynghyd a threfnu sistem un ffordd i mewn ag allan.

f. Gofynwyd i'r Clerc anfon cerdyn o gydymdeimlad i'r cyn gyngorydd Cynrig Hughes a'i wraig yn dilyn profedigaeth.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.50